# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Llwynderw**

**Heol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Maesteg**
**CF34 OBA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 9 Mawrth 2022

09/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Llwynderw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato: Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae Tŷ Llwynderw yn darparu amgylchedd cynnes a chyfeillgar, gan hybu ymdeimlad o gymuned ac agosatrwydd. Mae'r bobl sy'n byw yn Nhŷ Llwynderw yn mwynhau cwmni ei gilydd, sydd yn cael ei hwyluso gan dîm o staff sydd yn eu hadnabod yn dda ac yn eu gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu. Mae amgylchedd y cartref yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac mae ganddo gyfleusterau da i'r bobl eu defnyddio. Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio a'u fetio'n briodol, ac yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd i drafod unrhyw faterion proffesiynol neu anghenion datblygu. Mae angen i'r staff gofal gwblhau hyfforddiant gorfodol dyledus i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth i ddarparu'r gofal gorau posib. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng rheolwyr a staff yn ystod cyfnodau trosglwyddo manwl bob dydd. Mae goruchwyliaeth dda o'r digwyddiadau yn y cartref gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Mae'r unigolyn cyfrifol enwebedig yn cwblhau ymweliadau monitro gofynnol, ac yn casglu gwybodaeth ac adborth i ddadansoddi ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ac unrhyw welliannau y gall fod eu hangen. Ar hyn o bryd, mae un unigolyn yn byw yn y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith, ond sy'n siarad Saesneg hefyd. Mae rhai aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac maent yn gwneud amser i siarad â'r unigolyn hwn; mae'r staff eraill yn defnyddio Cymraeg achlysurol pan fydd modd. Mae dogfennau dwyieithog ar gael ar gais.

## Llesiant

Mae pobl yn cael eu trin fel unigolion ac maent yn cael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau drwy gydol eu diwrnod. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am hoffterau a chasbethau'r bobl a dangosodd y staff gofal eu gwybodaeth a'u bod yn gyfarwydd â'r bobl roeddent yn eu cynorthwyo drwy gydol ein hymweliad. Roedd y staff gofal yn hwyluso dawnsio, canu a gweithgareddau, gan ofyn i'r bobl beth oeddent yn ei hoffi a beth oedd arnynt ei angen. Gadawodd un unigolyn yr ardal gymunol am ychydig o amser ar ei ben ei hun yn ei ystafell, ac fe'i cynorthwywyd i wneud hynny. Mae blwch awgrymiadau yn y cartref ar gyfer adborth, ac mae proses gwynion ar waith ar gyfer y bobl neu eu perthnasau/cynrychiolwyr i’w defnyddio os oes angen.

Cefnogir y bobl i fod mor iach â phosib trwy gael gofal cyfannol oddi wrth ystod o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o fewnbwn rheolaidd oddi wrth feddygon teulu a nyrsys cymunedol, yn ogystal â deintydd, optegydd a chiropodydd. Derbyniasom adborth cadarnhaol oddi wrth ymwelydd iechyd proffesiynol, a ddywedodd fod staff gofal yn rhagweithiol wrth atgyfeirio materion iddo, ac yn ymatebol wrth weithredu'r cyngor neu driniaeth barhaus sy’n cael ei rhoi. Mae'r staff gofal yn wybodus am y feddyginiaeth a ragnodir i’r bobl sy’n yn Nhŷ Llwynderw ac yn gallu ei rhoi yn briodol.

Mae systemau ar waith i amddiffyn pobl rhag niwed a cham-drin. Caiff risgiau i iechyd a diogelwch pobl eu cynnwys mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg. Caiff y rhain eu hadolygu, ond dylai diweddariadau gael eu cofnodi'n gliriach ar yr asesiad risg ei hunan. Mae polisïau priodol ar waith, gan gynnwys diogelu a chwythu'r chwiban, a oedd wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar yn ôl nodyn. Mae angen i rai o'r staff gofal gwblhau cyrsiau gloywi yn eu hyfforddiant diogelu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gywir a chyfredol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn annog pobl i ryngweithio â'i gilydd ac i aros wedi'u hysgogi ac mor egnïol â phosib yn ystod y dydd. Gwelsom ryngweithio cynnes a pharhaus rhwng y staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn am y staff: *"Maent yn dangos cyfeillgarwch i chi ac rydych chi'n dangos cyfeillgarwch iddynt hwy."* Dywedodd ymwelydd proffesiynol wrthym, *"Mae hwn yn wasanaeth da, maent yn cael gofal da yma."* Mae'r staff gofal yn cadw'r momentwm i fynd trwy gydol y dydd, gan gynnig dewis o weithgareddau a chyfleoedd i'r bobl gael treulio amser gyda'i gilydd, neu ar eu pen eu hunain os ydynt yn dymuno.

Mae gan y staff gofal y wybodaeth briodol i allu darparu'r gofal cywir ar yr amser cywir i'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion pobl a'r cymorth sydd ei angen i'w cynorthwyo gyda phob agwedd o'u bywyd o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd wrth i anghenion y bobl newid. Mae siartiau ategol yn cael eu cwblhau, gan gofnodi cymeriant bwyd a hylif, er enghraifft. Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol allanol ac mae eu cyngor a'u canllawiau yn cael eu gweithredu. Mae'r staff gofal a rheolwyr yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau arwyddocaol, neu newidiadau yn anghenion y bobl, yn ystod cyfnodau trosglwyddo manwl ar ddiwedd pob shifft. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd y gweithiwr gofal enwebedig ar gyfer meddyginiaeth yn gallu rhoi esboniad trwyadl i ni o sut mae'r feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel, yn ogystal â'r holl bethau sydd ynghlwm wrth roi meddyginiaeth pob unigolyn. Gwelsom ran o rownd meddyginiaeth a oedd yn dangos bod staff gofal yn gymwys wrth ei rhoi. Gwelsom fod dewis gan y bobl am eu prydau bwyd, ac roedd staff y gegin i'w gweld yn gyfarwydd â nhw a'u hanghenion a'u hoffterau deietegol.

Mae systemau ar waith i hyrwyddo rheoli heintiau a hylendid da. Mae'r holl staff yn cwblhau profion COVID-19 rheolaidd, a gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan staff drwy gydol y dydd. Mae ymwelwyr hefyd yn cwblhau profion llif unffordd ac yn cwblhau cwestiynau sgrinio cyn dod i'r gwasanaeth. Mae amgylchedd y gwasanaeth i'w weld yn lân, gyda'r staff domestig yn cwblhau amserlen lanhau drwyadl, ac mae'r staff gofal yn dilyn trefniadau hylendid dwylo a glanhau yn y man a'r lle priodol.

## Yr Amgylchedd

Mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd sy'n cynnwys cyfarpar sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a chyfleusterau sy'n hyrwyddo cyflawni canlyniadau pobl. Roedd adborth am yr amgylchedd yn cynnwys: *"Rwy'n byw yn foethus iawn yma"* ac *"Mae ganddynt bopeth mor hyfryd yma, mae'n wych."*Mae gan y cartref ystafell sba, yn ogystal ag ardaloedd cymunol gyda digon o le ynddynt, ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi en suite. Mae Tŷ Llwynderw yn rhan o gyfadeilad ehangach sy'n berchen i Linc Cymru. Mae'r bobl sy'n byw yn Nhŷ Llwynderw yn gallu mynd i salon a thŷ bwyta yn y cyfadeilad, ac ardal ddiogel tu allan yn yr awyr agored. Mae'r cartref yn ddiogel rhag ymweliadau heb awdurdod ac mae ystafell yr olchfa, yr ystafell golchi dillad a'r ystafell meddyginiaeth o dan glo i leihau'r risg i ddiogelwch unigol y bobl. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn treulio eu hamser yn yr ardaloedd cymunol, ond mae ganddynt le i fod ar eu pen eu hun os ydynt yn dymuno.

Gwelsom fod yr amserlen cynnal a chadw cyfarpar yn gyfredol, felly mae'r cyfarpar yn addas i'w ddiben ac yn ddiogel i'w gael ei ddefnyddio. Mae Linc Cymru yn darparu gwasanaethau domestig a golchi dillad ac roedd y cartref i'w weld yn lân adeg ein hymweliad. Mae'r cyfarpar tân a'r larymau yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ac mae cynlluniau'r bobl ar gyfer gadael mewn brys yn cael eu storio ar bwys y blwch tân rhag ofn y bydd argyfwng. Mae materion cynnal a chadw yn cael eu cyfeirio at Linc Cymru ac mae contractwyr yn cael ei hanfon i gynnal gwaith atgyweirio ac ailosod.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith ar waith ar gyfer goruchwyliaeth o'r gofal a'r cymorth sydd yn cael eu darparu yn y cartref. Mae strwythur rheoli clir ac mae'r staff gofal a rheolwyr i'w gweld yn rhannu gwybodaeth rhyngddynt heb rwystrau. Roedd yr adborth oddi wrth y  staff yn cynnwys: *"Rwy'n meddwl bod morâl y tîm staff yn dda iawn", "Rydym i gyd fel teulu mawr",* ac *"Rwy'n mwynhau bod yma, nid yw hyn fel gweithio hyd yn oed."* Mae'r unigolyn cyfrifol yn gwneud ymweliadau monitro i'r cartref bob tri mis i gasglu gwybodaeth ac adborth ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu.

Mae'r bobl yn cael gofal cyson oddi wrth dîm o staff cyson sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Mae'r tîm o staff gofal yn fach, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi gweithio yn Nhŷ Llwynderw ers iddo agor. Mae staff asiantaeth yn cael eu defnyddio'n aml yn sgil salwch staff. Dywedodd staff gofal wrthym fod lefelau staffio yn ddigonol i'w caniatáu i gynorthwyo'r bobl mewn ffordd ddigynnwrf a heb frysio, a gwelsom fod staff yn gallu treulio amser gyda'r bobl yn siarad ac yn gwneud pethau gyda'i gilydd. Mae'r staff gofal yn cael eu recriwtio trwy adran adnoddau dynol yr awdurdod lleol, gyda'r rheolwr yn awdurdodi'r geirdaon a roddir ac yn cael ei hysbysu pan fydd gwiriadau diogelwch wedi cael eu cwblhau ac y gall yr aelod o staff ddechrau yn ei rôl.

Mae gan aelodau o'r staff gyfleoedd ar gyfer cymorth a datblygiad, ond mae'n rhaid sicrhau bod cyrsiau gloywi mewn hyfforddiant craidd yn cael eu cwblhau. Mae sesiynau goruchwylio un-i-un yn cael eu cynnal yn rheolaidd gydag aelodau o staff unigol, i'w caniatáu i gael y cyfle i drafod unrhyw faterion personol neu broffesiynol sydd ganddynt. Gwelsom dystiolaeth o fylchau yn yr hyfforddiant a gwblhawyd mewn meysydd craidd fel codi a chario, diogelu, hyfforddiant tân, a rhoi meddyginiaeth. Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol ac, o ganlyniad, roedd y cyfle i gwblhau hyfforddiant wedi cael ei effeithio gan y pandemig. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus ym mhob agwedd o'u swydd. Fodd bynnag, heb wybodaeth gyfredol yn y meysydd craidd hyn, efallai na fydd y staff gofal yn gallu darparu'r gofal gorau posib i bobl. Mae hwn yn faes i'w wella y byddwn yn mynd ar ei drywydd yn ein harolygiad nesaf. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar y safle i'r staff gofal eu defnyddio fel canllaw pan fydd angen. Nodwyd bod y rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Mae polisi meddyginiaeth diweddaredig yn cael ei lunio mewn cydweithrediad â'r bwrdd iechyd lleol a dylai fod ar gael i'r gwasanaeth cyn hir.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Mae angen i'r staff gofal fod yn gyfredol yn eu hyfforddiant gorfodol er mwyn darparu'r gofal gorau | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | posib. | |
| 15 | Rheoliad 15(1) – Mae'n ofynnol i gynlluniau personol ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn a chynnwys dewis iaith, hanes personol a thystiolaeth o gyfranogiad defnyddiwr gwasanaeth neu eiriolwr wrth gynllunio ac adolygu gofal. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 19/04/2022